

## POWEL, DAVID (c.1540-1598), clerigwr a hanesydd

**Enw:** David Powel  
**Dyddiad geni:** c.1540  
**Dyddiad marw:** 1598  
**Priod:** Elisabeth ferch Cynwrig  
**Plentyn:** Samuel Powel  
**Plentyn:** Gabriel Powel  
**Plentyn:** Daniel Powel  
**Rhiant:** Hywel ap Dafydd ap Gruffudd  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** clerigwr a hanesydd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Dywed [Yr Athro Melville Richards](#), ar sail gweithred trosglwyddo tir dyddiedig 26 Hydref 1558 yn L.I.G.C. ([Erivat Estate Records, File 35](#)), y dydid rhoi blwyddyn geni Dr. Powel yn ôl o leiaf i 1540. Yr oedd yn fab i Hywel ap Dafydd ap Gruffudd o Lantysilio a Bryneglwys yn lâl - gweler yr ach, sy'n ymestyn yn ôl i [Edwin ap Gronw](#) o Degeingl, yn *Powys Fadog*, ii, 340. 'Yn 16 oed,' aeth i goleg anhysbys yn Rhydychen, ond pan sefydlwyd Coleg Iesu yno (1571) mudodd i hwnnw, a bernir (Hardy, *Jesus College*, 41) mai ef oedd y cyntaf i raddio o'r Coleg, 3 Mawrth 1572/3 (graddiodd yn D.D. yn 1583). Eisoes cyn graddio, cafodd ficeriaeth Rhiwabon, 1570 ([Thomas](#), *A History of the Diocese of St. Asaph*, iii, 286), a ficeriaeth Llanfyllin, 1571 (op. cit., ii, 234); newidiodd Llanfyllin am Feifod yn 1579 (op. cit., ii, 502 - gellid meddwl iddo ymddeol yn 1597); cafodd hefyd ddwy brebend olynol yn eglwys Llanelwy (op. cit., i, 350, 347); ac yn 1588/9 (op. cit., ii, 252) cafodd reithoraeth segur Llansantffraid-ym-Mechain. Enwir ef yn Chwefror 1587/8 fel un o unig dri 'phregethwr' esgobaeth Llanelwy. Y mae'n un o gynrychiolwyr pwysigaf y Dadeni Dysg yng Nghymru. Cydnebydd yr [esgob Morgan](#) help a gafodd ganddo i gyfieithu'r Beibl Cymraeg; a thystia [John Davies o Fallwyd](#) (a'i fab ef ei hunan, Daniel Powel) fod yn ei fwriad gyhoeddi geiriadur Cymraeg; gweler y nodyn ar Daniel Powel isod.

Eithr fel hanesydd y gwnaeth ei enw. Fis Medi 1583 gofynnwyd iddo (gan [Syr Henry Sidney](#), llywydd Cyngor y Goror, y daeth wedyn yn gaplan iddo) baratoi i'r wasg gyfieithiad [Humphrey Llwyd](#) o Frut y Tywysogion - yr oedd [Llwyd](#) wedi cyfieithu o lawysgrif a ddibennai yn 1270, ond wedi chwanegu atodiad hyd at 1295. Ond yr oedd yr *Historie of Cambria, now called Wales* a ddug Powel allan yn 1584 yn helaethach o lawer; yng ngeiriau ei wynebdden, yr oedd yn 'corrected, augmented, and continued, out of records and best approved authors,' ac yn y rhagymadrodd y mae rhestr o'r awduron a ddefnyddiwyd ac o'r fu'n gymorth i Powel, megis [William Cecil \(arglwydd Burghley\)](#) a ryddhaodd y ffordd iddo at recordiau swyddogol. Ar flaen y llyfr, argraffodd Powel gyfieithiad [Llwyd](#) o draethawd Lladin [Syr John Price](#) o Aberhonddu ar hen ranbarthau Cymru. Gwthiodd i mewn i gorff y 'Brut' chwanegiadau ganddo ef ei hunan a chan eraill, yn enwedig draethawd [Syr Edward Stradling](#) ar gonwest Normanaidd Morgannwg, a roddwyd i Powel gan [Blanche Parry](#). Yn ddiwethaf, chwanegodd atodiad annigonol iawn hyd at 1584. Bu'n ofalus i wahaniaethu (trwy ddefnyddio llythyren wahanol neu glustnodau) rhwng gwaith [Llwyd](#) a'r chwanegiadau. 'Harddwyd' y llyfr â darluniau (digrif braidd) o 'hen dywysogion Cymru'; ond dangosodd [J. E. Lloyd](#) a Victor Scholderer ('[Powel's Historie \(1584\)](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Haf 1943, 15-8) mai blociau benthyg oedd y rhain - lluniau gw'r hollol wahanol, o arg. 1577 o *Chronicles* Holinshed, llyfr hysbys fel un o 'ffynonellau' Shakespeare.

Y mae llyfr Powel yn bwysig dros ben yn ein 'traddodiad' o hanes Cymru. Naill ai yn ei ffurf wreiddiol (a adargraffwyd yn 1811), neu fynychaf yng nghyfaddasiad [William Wynne](#) (a gweler *B.B.C.S.*, 1932, 153-9), arno ef i fesur mawr y dibynnodd pawb hyd [John Edward Lloyd](#) (yn 1911) am hanes y cyfnod hyd at 1282. Sgrifenna Powel (ond nid [Wynne](#)) yn fywiog, weithiau'n lliwgar. Ac er ei fod yn ymfalchïo yn yr uniad â Lloegr, ac yn tystio 'nad oes erbyn hyn wlad yn unman â gwell trefn arni na Chymru,' ac y byddai'n well fyth pe cai hi'r *Beibl* yn ei haith, eto nid yw'n serchus iawn at Saeson. Ai annaturiol, meddai, fu i'r Cymry gynt wrthsefyll y Saeson? 'ai anufudd-dod yw amddiffyn eich pwrs rhag lladron?' Ymhelaetha ar draha arglwyddi'r Mers a swyddogion y Goron yng Nghymru. Nid oes ganddo fawr i'w ddweud wrth [Owain Glyndwr](#), 'who lived in a fool's paradise,' ac nad oedd ei 'hawl' i'r Dywysogaeth ond 'altogether frivolous' (nac yn wir fwy na thudalen o'i hanes), eithr y mae'n chwyrn iawn ar y deddfau a wnaethpwyd i gosbi'r Cymry am y gwrthryfel. Yn oes Elisabeth y sgrifennai, ac y mae'n mynd allan o'i ffordd i ddangos nad anturwr didras oedd [Owain Tudur](#), eithr pendefig o hen hil. Eithr y mae'n ddiddorol sylwi nad ar deulu [Penmyynydd](#) y seilia ef hawl ei frenhines a'i thad i Dywysogaeth Cymru. Aer [Llywelyn Fawr](#), iddo ef, oedd [Dafydd](#). Nid oedd [Gruffydd](#) a'i feibion [Llywelyn](#) a [Dafydd](#), gellid meddwl, â gwir hawl ganddynt; felly ar farw [Dafydd ap Llywelyn Fawr](#), ei etifedd oedd ei chwaer [Gwladus Ddu](#) a'i disgynyddion y [Mortimeriaid](#); ac nid trwy ei dad [Harri VII](#) yr etifeddodd Harri VIII (ac Elisabeth) Dywysogaeth Cymru, eithr trwy ei fam, Elisabeth (Mortimer) o deulu Iorc.

Yn 1585, cyhoeddodd Powel dri llyfr yn un gyfrol: (1) *Historia Britannica* Ponticus Virunnus (crynodeb o [Sieffre o Fynwy](#)); (2)

*Itinerarium Cambriae* a *Descriptio Cambriae* [Gerallt Gymro](#), gyda chyfieithiad a nodiadau - dyma'r tro cyntaf i'r testun gael ei argraffu, ond bu gwladgarwch Powel yn drech na'i gydwybod, a gadawodd allan y rhannau sy'n adlewyrchu'n anffafriol ar Gymru; (3) llythyr De Britannica Historia recte intelligenda. Bu farw 'yn gynnar yn 1598' meddai [J. E. Lloyd](#) yn ei ysgrif arno yn y *D.N.B.*, a chladdwyd yn Rhiwabon. Nid oes sail i'r dyb mai ef a sefydlodd ysgol ramadeg Rhiwabon.

O'i briodas ag Elisabeth, ferch Cynwrig o Farchwiail, cafodd dri mab.

### DANIEL POWEL, lleygwr

Yr hynaf, a oedd eto'n fyw yn 1620, sefydlydd teulu Poweliaid y Rhuddallt (*Powys Fadog*, loc. cit.). Ef a argraffodd y *Llyfr Plygain*, 1612, adarg. 1931; yn ei ragymadrodd sonia'n dynyr am ei dad - am ei ofal dros Eglwys Dduw a'i 'boen a mawr-draul yn enwedig er mwyn ei wlad'; a rhydd hanner-addewid i gyhoeddi '*Dictionari Cymreig, sef Trysor-eiriau fy nhad*'

### SAMUEL POWEL (1570 - 1600)

Yr ail fab, g r gradd o Goleg Iesu, Rhydychen, a fu yntau'n ficer Rhiwabon o 1598 hyd 1600 ([Thomas](#), *A History of the Diocese of St. Asaph*, iii, 286).

### GABRIEL POWEL (1576 - 1611)

Y trydydd mab; cwbl Seisnig yw ei yrfa ef, ar wahân iddo ddal rheithoraeth segur Llansantffraid-ym-Mechain (fel ei dad o'i flaen), 1601-11 ([Thomas](#), *A History of the Diocese of St. Asaph*, ii, 252); yn ôl Anthony Wood, yr oedd 'yn wyrth o ddysg' - cyhoeddodd naw o lyfrau yn erbyn Pabyddiaeth a Phiwritaniaeth; ac y mae ysgrif arno yn y *D.N.B.* gan Alexander Gordon.

## Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Enwyd y ffynonellau yng nghorff yr ysgrif

## Darllen Pellach

Melville Richards, '[Dr David Powel, Rhiwabon](#),' *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, XIII, 398

Erthygl Wicipedia: [David Powel](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [49579129](#)

Wikidata: [Q5238679](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

